# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

**COFNODION**
**MAWRTH 2026**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 11eg Mawrth, 2026 |
| **AMSER** | 7.00 y.h |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan |

**PRESENOLDEB**

| ENW | Cyf. | SWYDDOGAETH | PRESENNOL/ABSENNOL/ YMDDIHEURO |
|---|---|---|---|
| Dyfan Thomas | DT | Cadeirydd | Presennol |
| Gwilym V Thomas | GVT | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Michelle Williams | MS | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Nerys Evans | NE | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Jason Hunt | JH | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Gwilym Ll Williams | GLW | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Tom Ellis | TE | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Adam S Roberts | ASR | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Arwyn Roberts | AR | Cynghorydd Ward Tryfan | Ymddiheuro |
| Huw Rowlands | HR | Cynghorydd Ward Llanwnda | Presennol |
| Nia Gruffydd | NG | Aelod o'r Cyngor | Presennol |
| Aeron M.Jones | AMJ | Aelod o'r Cyngor | Ymddiheuro |
| Avril M Evans | AME | Clerc | Presennol |
| Mark Gahan | MG | Swyddog Cyngor Gwynedd | Presennol |

<table>
<tr><td>1.</td><td>CROESO A DATGANIADAU BUDDIANT<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.<br><br>Gofynnwyd i unrhyw aelod ddatgan unrhyw fuddiant ychwanegol i'r hyn sydd ar y rhestr flynyddol.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>PWYNT GWEITHREDU: DIM</td><td></td></tr>
<tr><td>2.</td><td>Cofnodion Cyfarfod 18.02.26<br><br>Cyflwynwyd y cofnodion diweddara, ac fe'u cymeradwywyd yn unfrydol.</td><td></td></tr>
<tr><td>3.</td><td>PWYNT GWEITHREDU: DIM</td><td></td></tr>
<tr><td>4.</td><td>Pwyntiau Gweithredu<br>Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu diweddara. Roedd diweddariadau i'w cael yn y gofrestr pwyntiau gweithredu oedd wedi'i danfon yn rhan o'r papurau.<ul><li>Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref, a Chymunedau Gwynedd 2026 – croesawyd MG i'r cyfarfod, gan ddiolch iddo am fynychu. Llongyfarchodd MG y Cyngor Cymuned am gwblhau prosiect Llwybrau Llanwnda yn llwyddiannus.<br><br>Eglurodd y byddai £7,000 ar gael yn 2026, gyda'r posibilrwydd o dderbyn mwy na hynny i ariannu unrhyw brosiectau mawr. Nodwyd fod rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn Mehefin 2026, a chwblhau'r prosiect erbyn diwedd y flwyddyn (Rhagfyr 2026).</li></ul></td><td></td></tr>
</table>

Rhannwyd dogfennau yn dangos prosiectau posibl gydag aelodau drwy e-bost yn ystod y cyfarfod.

Holodd GLW am y posibilrwydd o ddefnyddio'r grant i greu mynediad i'r cae newydd sydd wedi ei brynu fel i ehangu'r fynwent. Nodwyd y byddai angen llwybr fel i ganiatáu mynediad i hers. Cytunodd MG i wneud ymholiadau, gan ofyn i AME e-bostio'r manylion iddo yn gyntaf.

Mynegodd GVT bryder y byddai rhaid derbyn adroddiad peiriannydd yn gyntaf, gall gostio miloedd. Nododd MG debyg na fyddai'r grant yn gallu cael ei ddefnyddio i hynny, gan gytuno i wneud ymholiadau gyda YGC rhag y byddai'n bosibl iddyn nhw gynnal adroddiad. Mynegwyd hefyd y byddai'n bosibl dod o hyd i grantiau eraill fyddai'n ariannu adroddiadau neu waith paratoi.

Adroddodd GLW fod gwaith tebyg wedi ei gynnal ar fynwent yng Ngroeslon yn ddiweddar. Cytunwyd i AME gysylltu gyda Chlerc Llandwrog i holi sut ariannwyd y gwaith.

Holodd MG am unrhyw grwpiau cymunedol a allai elw o'r grant. Nododd GVT y byddai Porwyr Gwyrfai yn ddiolchgar o gyfraniadau i osod arwyddion ar y comin. Cytunwyd i GVT rannu'r manylion gyda MG.

- Siec cyflog y cyn Clerc (rhif 101801 gwerth £568.66) - yn absenoldeb AR gytunwyd i gynnwys hwn yn agenda'r cyfarfod nesaf.

- Diweddariad ar y wefan – Nododd AME ei bod wedi rhannu pob agenda a chofnodion 2025/26 hyd yn hyn gyda Delwedd i'w rhannu ar y wefan. Cadarnhaodd DT y byddai'n edrych dros y wefan yn fuan gan amlygu unrhyw gamgymeriadau i Delwedd.

- DT i drefnu i gyfarfod GLW i gysylltu eu cyfeiriad e-bost newydd.

- Gwaith ail-osod copings mynwent Cefnfaes - Nododd AME fod Ceri bron wedi cwblhau'r gwaith, ond fod y tywydd diweddar wedi ei ddal yn ôl.

  Nodd y Clerc fod Ceri wedi cynnig pris o £500 am drwsio carreg gongl cwt y fynwent. Cytunodd yr aelodau i'w dderbyn.

- Modurdai Bro Gilbert – Adroddodd HR ei fod wedi derbyn yr ymateb canlynol gan Adra – "Rydym wedi derbyn diddordeb gan rai unigolion i brynu'r safle ac wedi mynd nol atynt i'w holi os ydynt eisiau rhoi cynnig fewn, rydym yn disgwyl ei ymateb.

  Os na fydd neb yn dychwelyd atom, yna mi wnawn ail ystyried y sefyllfa.

  Mi fyddai'r amcan gost i dynnu'r garejis a darparu gofod parcio yn costio oddeutu £40k i'w wireddu ac nid oes gennym gyllideb ar gyfer hyn ar hyn o bryd.

Mi ddof nol atoch pan fydd gennym ddiweddariad pellach”.

Cytunwyd nad oedd dim pellach ellid ei wneud hyd nes clywed yn ôl gan Adra.

- Mandad banc - nodwyd fod ME wedi dychwelwyd a’r mandad i’r banc fel i gynnwys AME fel llofnodwr. Cytunodd AME i fynd i’r banc i wirio fod y gwaith papur wedi ei brosesu, ac i wneud cais am fancio dros y we.

- Clerc i ymaelodi efo SLCC - Nododd AME ei bod wedi mynychu webinar diweddar ar gyfer clercod newydd. Eglurodd ei fod yn un o gyfres. Cytunodd yr aelodau i dalu i’r Clerc fynychu’r modiwlau dilynol.

- Diffyg torri gwair a gwrychoedd - Nododd HR fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Chyngor Gwynedd i drafod hyn ar 17/03/26.

- Biniau Halen - Nodwyd fod rhestr o finiau halen wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd, yn cadarnhau mai un bin yn unig roedd yn llawn yn ddiweddar, yn awgrymu nad ydi’n cael ei ddefnyddio.

  Mynegodd sawl aelod siom nad oedd Adra na Chyngor Gwynedd yn cymryd cyfrifoldeb dros ddarparu biniau newydd. Cytunwyd i AME gysylltu’n benodol gyda’r gweithiwr cymdeithasol á gyflwynodd cais ar ran un teulu ar stad newydd Adra yn Dinas, yn egluro’r sefyllfa, gan awgrymu iddynt gysylltu’n uniongyrchol gydag Adra.

- Maes parcio Lein Bryngwyn - Gwiriwyd map a dderbyniwyd yn ddiweddar gan y Rheilffordd, yn nodi pa ddarnau sydd dan eu perchnogaeth. Mynegodd sawl aelod fod y map i’w weld yn anghywir, gan ei fod yn dangos mai ond un darn bychan iawn o’r llwybr mae’r Rheilffordd yn gyfrifol amdano. Os felly, bosibl nad y nhw sydd berchen y maes parcio.

  Cytunwyd i AME wneud ymholiadau gyda YGC ynglŷn á pwy sy’n gyfrifol am y lleoliad.

- Ad-daliad llwybrau - Adroddodd AME fod £821.08 wedi ei dderbyn yn y banc fel ad-daliad, sy’n llawer llai na’r cais a gyflwynwyd. Wedi holi Cyngor Gwynedd, eglurwyd mai hwn ydi’r swm sydd wedi ei dalu ers rhai blynyddoedd bellach, ac nad ydi cyllidebau’r Cyngor yn caniatáu iddynt gyfrannu mwy ar hyn o bryd.

- Ceisiadau niferus i ganiatáu marchogaeth ar lwybr cyhoeddus – Nodwyd, ers y cyfarfod diwethaf, fod AME wedi danfon cofnodion Saesneg i aelod o’r cyhoedd a’r Cynghorydd Llio Elenid. Nid oes ymateb wedi ei dderbyn eto.

  Adroddwyd fod HR wedi bod mewn cysylltiad gyda’r Rheilffordd, a'u bod yn hapus i gyfarfod i drafod Lein Bryngwyn.

| | | |
|---|---|---|
| | Mynegodd DT, NG, MW ac GLW diddordeb bod yn rhan o'r cyfarfod hefyd. Cytunwyd y byddai HR yn cynnig cyfarfod am 6:45 y.h ar 23ain o Fawrth, os nad hynny, ar 26ain o Fawrth am yr un amser.<br><br>• Ymddiswyddiad GVT - diolchwyd i GVT am ei flynyddoedd o wasanaeth.<br><br>Nododd AME ei bod wedi derbyn hysbysiad i gyhoeddi'r sedd wag gan Gyngor Gwynedd, i'w rannu am gyfnod o bythefnos yn cychwyn o 16eg o Fawrth.<br><br>Cytunodd DT i'w rannu ar cyfrif Facebook y Cyngor Cymuned, gyda AME i'w rannu gyda Delwedd i'w roi ar y wefan. Cytunodd MW i roi copi papur i Ysgol Rhosgadfan i'w arddangos ar hysbysfwrdd y pentref, gyda DT hefyd am roi copïau papur ar hysbysfwrdd Rhostryfan.<br><br>Awgrymwyd hefyd y byddai'n syniad i'r Clerc ddarganfod pryd fod cyfnodau aelodau ar y Cyngor yn dod i ben<br><br>• Arwydd ar Y Lon Wen - Adroddodd AME fod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi cytuno i gyflwyno'r cais am arwydd i'r adran Amgylchedd, á fydd o bosibl, yn gallu darparu a gosod arwydd ar ein rhan.<br><br>• Bwydo gwartheg ar y comin - Adroddwyd fod AME wedi cysylltu gyda sawl asiantaeth, ond ei fod yn anodd i unrhyw un weithredu oherwydd cymhlethdod perchnogaeth y tir. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi ei fod yn bosibl iddynt ymchwilio'r mater petai'r Cyngor Cymuned yn darparu tystiolaeth fod y baw a'r mwd yn llifo i'r afon. Eglurodd MW fod y mwd yn ei wneud yn amhosibl ar hyn o bryd i neb fynd yno yn saff, gyda GVT yn ychwanegu, debyg o fewn mis fydd y llygredd wedi mynd.<br><br>Nododd MW fod swyddog o Gyngor Gwynedd wedi ymweld á'r safle yn ddiweddar, felly bosibl y bydden nhw yn gweithredu.<br><br>• Lein Bryngwyn - ffens wedi torri a choeden wedi hollti - cytunodd DT i drefnu i ymweld á'r safle gyda SL i asesu'r sefyllfa.<br><br>• Adroddiad Blynyddol – adroddodd AME ei bod wedi cychwyn yr adroddiad, ond fod angen disgwyl hyd nes diwedd y flwyddyn ariannol i adrodd ar y gwariant. Cytunodd i rannu'r adroddiad gyda DT mis Ebrill fel i gwblhau adran y Cadeirydd. | |
| 5. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>• **Rhannu manylion am greu mynediad i ran newydd y fynwent gyda MG.**<br>• **Ymholi Clerc Llandwrog sut ariannwyd gwaith ar y fynwent.**<br>• **Rhannu manylion Porwyr Gwyrfai gyda MG.**<br>• **Gwirio cynnwys y wefan, gan amlygu unrhyw gamgymeriadau i Delwedd.**<br>• **Derbyn cynnig Ceri i drwsio cwt y fynwent.**<br>• **Cyflwyno cais i fancio ar y we.** | **AME**<br><br>**AME**<br>**GVT**<br>**DT**<br><br>**AME**<br>**AME** |

| | | |
|---|---|---|
| | • **Cofrestru i fynychu modiwlau hyfforddiant SLCC.**<br>• **Ymholi YGC am berchnogaeth maes parcio Lein Bryngwyn.**<br>• **Rhannu hysbyseb sedd wag ar y wefan.**<br>• **Rhannu hysbyseb sedd wag ar Facebook a hysbysfwrdd Rhostryfan.**<br>• **Rhannu hysbyseb sedd wag ar hysbysfwrdd Rhosgadfan.**<br>• **Darganfod pryd mae cyfnodau aelodaeth aelodau yn dod i ben.**<br>• **Cyfarfod SL ar Lein Bryngwyn i asesu'r sefyllfa.** | **AME**<br>**AME**<br>**AME**<br>**DT**<br><br>**MW**<br>**AME**<br>**DT** |
| 6. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw ar 28/02/26:<br>Cyfri Siec ar 28/02/26:<br><br>Anfonebau/Taliadau:<br>Sieciau:<br>Cyflog/costau clerc (Avril) Chwefror 2026 (mis 11)<br><br>SLCC – hyfforddiant Clerc<br><br>Un Llais -aelodaeth<br><br>Steven Lewis – tynnu iddew a dal tyrchod<br><br>Taliadau ar-lein:<br>HSBC – ffioedd banc Chwefror<br><br>Incwm:<br><br>Cyngor Gwynedd - ad-daliad llwybrau | <br>£21,653.42<br>£24,002.34<br><br><br><br>£616.00<br><br>£36.00<br><br>£417.00<br><br>£165.00<br><br><br>£1.20<br><br><br><br>£821.08 |
| 7. | **PWYNT GWEITHREDU: Clerc i bostio sieciau** | |
| 8. | **Is-bwyllgorau – DIM** | |
| 9. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>DIM | |
| 10. | **Materion i'w trafod**<br><br>• Cais grant Cyfraniad Ni i Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd - diweddariad gan AME - Eglurodd AME fod y gwaith wedi ei gwblhau. Nodwyd fod yr arwyddion wedi eu gosod 09/03 a'r holiadur 'cwblhau prosiect' wedi ei lenwi a'i rannu gyda Chyngor Gwynedd. Gellid cymryd hyd at 14 diwrnod i'r taliad gyrraedd cyfrifon y Cyngor Cymuned.<br><br>• Lon rhwng Ffrwd Cae Du a Rhostryfan - gordyfiant coed yn ymestyn i'r lon. Nododd DT fod peth o'r gordyfiant wedi ei dorri yn ddiweddar gan berchennog y tir. Eglurodd HR mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am adnabod gordyfiant tebyg ac adrodd wrth y ffermwyr.<br><br>• Bin y fynwent – adroddodd AME fod y contractwr wedi nodi fod caead bin y fynwent wedi torri, a glaw yn casglu ynddo. Cytunodd DT i drefnu i gael bin neu gaead newydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mynediad i gae newydd y fynwent – eisoes wedi ei drafod fel rhan o'r cynllun gweithredu.<br><br>• Polisi Preifatrwydd-eglurodd AME fod rhaid cael polisi preifatrwydd ar gyfer y wefan newydd. Derbyniwyd copi o bolisi Un Llais Cymru. Fe'i haddaswyd gan AME a'i rannu gydag aelodau.<br><br>Cytunwyd ei fod yn dderbyniol i'w rannu ar y wefan am y tro, fodd bynnag, mynegodd NG y byddai'n fuddiol ei symleiddio, a'i wneud yn fwy perthnasol i'r Cyngor Cymuned gan nodi yn union pa ddata byddwn yn ei gadw ac am ba hyd, yn hytrach 'na chadw'r fersiwn generig. Cytunwyd fod hyn yn syniad da.<br><br>Mynegodd MW nad oedd yn derbyn e-byst o'i chyfrif y Cyngor Cymuned. Cytunodd DT i gael golwg arno. | |
| 11. | **PWYNT GWEITHREDU :**<br><br>• **Trefnu bin/caead bin newydd i'r fynwent.**<br>• **Rhannu fersiwn generig Polisi Preifatrwydd gyda Delwedd i'w rannu ar y wefan.**<br>• **Symleiddio'r Polisi Preifatrwydd.**<br>• **Gwirio fod cyfeiriad e-bost Cyngor Cymuned MW yn weithredol.** | <br><br>**DT**<br>**DT**<br><br>**NG & AME**<br>**DT** |
| 12. | **Materion Cynllunio**<br><br>**CEISIADAU I'W CYMERADWYO YN Y CYFARFOD**:<br><br>• Yr Hen Bost, Rhostryfan – newid defnydd<br><br>Dim gwrthwynebiad gan aelodau. | |
| 13. | **PWYNT GWEITHREDU –**<br>• E-bostio ymatebion i CG. | <br>**AME** |
| 14. | **Gohebiaeth –**<br>• Diweddariad Robert Jones – darllenwyd yr e-bost (diweddariad ar waith cynhaliwyd ar lwybrau cyhoeddus yr ardal gan Gyngor Gwynedd) i aelodau.<br>• Ymgynghoriad - wyro llwybr cyhoeddus rhif 15 - cytunwyd i DT rannu'r cyhoeddiad ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned | |
| | **PWYNT GWEITHREDU :**<br>• **Rhannu Ymgynghoriad wyro llwybr ar Facebook** | <br>**DT** |
| 15. | **Materion Cynghorwyr Sir -** e-bost wedi ei dderbyn gan HR cyn y cyfarfod. Dim sylwadau gan aelodau.<br><br>Er yn absennol, ffoniodd AR i rannu ei fod wedi trefnu i YGC ariannu gwaith fydd yn atal dŵr rhag llifio o gae Ysgol Rhosgadfan i stad Gwelfor. Nodir fod y gwaith yn cychwyn yn ystod yr haf. | |
| 16. | **PWYNT GWEITHREDU: DIM** | |
| 17. | **Rhannu Gwybodaeth** | |

| | | |
|---|---|---|
| | DIM | |
| 18. | **PWYNT GWEITHREDU:**<br>**DIM** | |
| 19. | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Ebrill 15fed, 2026 | |


Clerc: Avril Evans Ffôn: 07842710466 E-bost: Clerc@ccllanwnda.cymru